OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 10

### Trosglwyddiadau

### PENNOD 1

### Rhagarweiniol

**Cymhwyso'r Rhan hon**

**140.** Mae'r Rhan hon—

(a) yn ychwanegu at yr hawliau a roddir gan neu o dan Bennod 4 o Ran 4 o DCauP 1993 (gwerthoedd trosglwyddo) ac nid yw'n lleihau dim ar effaith y Bennod honno; a

(b) yn ychwanegu at yr hawliau a roddir gan neu o dan Bennod 5 o'r Rhan honno (ymadawyr cynnar: trosglwyddo symiau ariannol ac ad-dalu cyfraniadau)(**1**) ac nid yw'n lleihau dim ar effaith y Bennod honno.

**Dehongli mewn perthynas â'r Rhan hon**

**141.** Yn y Rhan hon—

ystyr "cyfwerth ariannol" ("*cash equivalent*") yw swm a gyfrifir yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 97 o DCauP 1993;

ystyr "cyfwerth ariannol gwarantedig" ("*guaranteed cash equivalent*"), mewn perthynas â chyfrifo gwerth trosglwyddiad o hawliau cronedig i gael buddion o dan y cynllun hwn, yw cyfwerth ariannol y buddion hynny fel ar y dyddiad gwarant, fel y'i pennir mewn datganiad o hawlogaeth;

ystyr "datganiad o hawlogaeth" ("*statement of entitlement*"), mewn perthynas â hawliau cronedig aelod actif neu aelod gohiriedig i gael buddion o dan y cynllun hwn, yw datganiad gan y rheolwr cynllun o gyfwerth ariannol neu werth trosglwyddiad clwb y buddion hynny fel ar y dyddiad gwarant;

mae i "dyddiad gwarant" ("*guarantee date*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 144 (datganiad o hawlogaeth);

ystyr "gwerth trosglwyddiad" ("*transfer value*"), mewn perthynas â hawliau cronedig i gael buddion ac eithrio pensiwn enilledig cronedig sy'n destun trosglwyddiad clwb, yw—

(a) yn achos hawliau cronedig i fuddion o dan y cynllun hwn, swm sy'n hafal i—

(i) cyfwerth ariannol gwarantedig y buddion hynny, neu

(ii) y cyfwerth ariannol gwarantedig ynghyd ag unrhyw gynnydd sy'n daladwy o dan reoliad 146 (cyfrifo swm gwerth trosglwyddiad neu werth trosglwyddiad clwb), a

(**1**) Mewnosodwyd Pennod 5 o Ran 4 o DCauP 1993 gan adran 264 o Ddeddf Pensiynau 2004 (p. 35).

(b) yn achos hawliau cronedig i fuddion o dan gynllun pensiwn arall, swm—

(i) a benderfynir gan actiwari cynllun y cynllun hwnnw, a

(ii) a bennir mewn datganiad o hawliau cronedig a ddarperir gan reolwr cynllun y cynllun hwnnw; ac

ystyr "gwerth trosglwyddiad clwb" ("*club transfer value*"), mewn perthynas â swm pensiwn enilledig cronedig o dan y cynllun hwn neu o dan gynllun clwb arall, yw swm a gyfrifir gan y rheolwr cynllun—

(a) yn unol â'r trefniadau trosglwyddiadau clwb, a

(b) drwy gyfeirio at y canllawiau a thablau a ddarperir gan Actiwari'r Llywodraeth at y diben hwn, sydd mewn defnydd ar y dyddiad a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiad.